

Canllaw i Dderbyn Taliadau Uniongyrchol

Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn dweud wrthyfch am y Cynllun Taliadau Uniongyrchol. Mae'n egluro beth yw Taliadau Uniongyrchol, pwy sy'n gymwys, sut i'w ddefnyddio a pha gymorth sydd ar gael.

Beth yw'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol?

Unwaith y byddwch wedi cael asesiad unigol sydd yn dangos canlyniadau ynghylch eich lles a bod gennych hawl i dderbyn gofal a/neu gymorth, efallai byddai'n well gennych drefnu eich gwasanaethau eich hun yn hytrach na chael y Cyngor i wneud hyn ar eich rhan. Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffordd o wneud hynny.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn eich caniatáu i gael dewis a rheolaeth ynglŷn â chyflawni'ch canlyniadau lles a hynny mewn ffordd a allai rhoi i chi'r cyfle i fyw mor annibynnol â phosibl.

Gyda Taliadau Uniongyrchol:

- Chi sydd yn dewis pwy sydd yn darparu'r gofal a/neu gymorth a allai fod ei angen arnoch
- Chi sydd yn rheoli pryd y byddwch yn derbyn y gofal a sut mae'r gofal hwnnw yn bodloni eich canlyniadau lles.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud taliad uniongyrchol i chi ar yr amod eich bod yn gymwys i dderbyn Taliadau Uniongyrchol, er mwyn i chi drefnu a phrynu eich cymorth eich hun.

Pwy all dderbyn Taliadau Uniongyrchol?

Rhaid i gynghorau gynnig Taliadau Uniongyrchol i unrhyw un sydd wedi derbyn asesiad unigol ac sydd yn gymwys i dderbyn

gofal a /neu gymorth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol

Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sicrhau bod modd diwallu'ch anghenion lles yn y fath ffordd, ac eich bod yn medru rheoli'r Taliadau Uniongyrchol, naill ai ar eich pen eich hun neu gyda'r help sydd ar gael.

Beth yw'r manteision?

- Chi sy'n dewis sut bydd eich gofal a/neu eich cymorth yn cael eu bodloni
- Gallwch benderfynu pwy fydd yn darparu'r cymorth
- Gallwch dderbyn gofal/a neu gymorth ar adeg sydd yn addas i chi
- Gallwch gael cyfuniad o Taliadau Uniongyrchol a chymorth yn uniongyrchol gan y gwasanaethau cymdeithasol os dymunwch.
- Byddwch yn derbyn cymorth, hyfforddiant a chefnogaeth i reoli'r cynllun

I ba bwrpas fedrai ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol?

Bydd hyn yn dibynnu ar y canlyniadau lles y cytunwyd arnynt, ond er enghraifft gallwch ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i:

- Gyflogi rhywun yn uniongyrchol i helpu i'ch cynorthwyo (Cynorthwydd Personol). Prynu gofal gan asiantaeth gofal cofrestredig preifat
- Gwneud eich trefniadau eich hun yn lle defnyddio gweithgareddau dydd neu ofal ysbeidiol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ni allwch ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol am wasanaethau iechyd neu wasanaethau tai.

Beth yw fy nghyfrifoldebau?

Byddwch yn gyfrifol am reoli'r ffordd y byddwch yn gwario'r Taliadau Uniongyrchol. Mae hyn yn golygu os byddwch yn cyflogi Cynorthwydd Personol yn uniongyrchol, byddwch yn cael eich cyfri fel eu cyflogwr. Fe fydd rhaid i chi hefyd gadw cofnodion anchwiliadwy o'r ffordd y caiff yr arian ei wario.

Byddwn yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant er mwyn i chi fedru rheoli'r cynllun. Gall y Tîm Byw'n Annibynnol eich galluogi chi i:

- Hysbysebu am staff
- Ysgrifennu disgrifiadau swydd
- Helpu i recriwtio
- Cofrestru gyda gwasanaeth cyflogres

A fydd Taliadau Uniongyrchol yn effeithio ar fy mudd-daliadau?

Na. Nid yw Taliadau Uniongyrchol yn effeithio o gwbl ar eich budd-daliadau ac nid ydynt yn cyfrif fel incwm at ddibenion treth. Fodd bynnag os byddwch yn cyflogi rhywun sydd yn derbyn budd-daliadau fe allai effeithio ar eu budd-daliadau hwy.

D.S. Nodwch nad budd-dal ychwanegol neu fath o incwm yw Taliadau Uniongyrchol. Rhaid defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar y gofal, cefnogaeth a/neu'r cymorth sydd ei angen amoch gan y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, yn ôl eich asesiad.

A fydd rhaid i mi dalu unrhyw beth?

Os byddwch yn derbyn Taliadau Uniongyrchol efallai y gofynnir i chi wneud cyfraniad tuag at eich costau gofal, yn ôl eich amgylchiadau. Yr un yw'r achos ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill a chaiff ei gyfrifo'n unol â Pholisi Codi Tâl y Gwasanaethau Cymdeithasol (ffeithiau ar gael ar gais).

Sut fedrai gael gwybod mwy?

Os oes gennych ddi-ddordeb i gael gwybod mwy am y Cynllun Taliadau Uniongyrchol, a fydddech cystal â chysylltu â'ch Gweithiwr Cymdeithasol/ Rheolwr Gofal os oes gennych chi un, neu'r Tîm Byw'n Annibynnol

Tîm Byw'n Annibynnol

Cyfeiriad:

*Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Llawr 5
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB*

E-bost:

independentlivingteam@torfaen.gov.uk

Ein manylion cyswilt

Os oes angen mwy o help amoch, cysylltwch â ni.

Ffôn: 01495 762200 ar 01633 624176

E-bost:

socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â ni er mwyn trefnu hyn